



08.06.2020

Annwyl rieni,

Yn dilyn cyhoeddiad Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, rydym wrthi'n paratoi ar gyfer ail-agor yr ysgol ar y 29ain o Fehefin.

Yn naturiol, bydd trefniadau a rhediad dyddiol yr ysgol yn hollol wahanol a newydd i'r arfer ac rydym yn disgwyl cyngor pellach wrth Lywodraeth Cymru heddiw.

Y bwriad ar hyn o bryd yw i ddefnyddio'r bedair wythnos o 29 Mehefin i gael grwpiau bach o ddisgyblion (7 ar y mwyaf) i'r ysgol yn raddol, trwy dreulio dau ddiwrnod yn yrysgol hyd at ddiwedd y tymor. Bydd hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion i gyfarwyddo gyda'r trefniadau newydd, ail-adeiladu perthnasoedd a pharatoi ar gyfer trefniadau tebyg ym mis Medi. Yn dilyn cyfarwyddid gan yr Awdurdol Lleol, byddwn yn cynnig hwn i ddisgyblion o flynyddoed 1 - 6 yn y lle cyntaf.

Lles y disgyblion fydd y flaenoriaeth yn yr ysgol dros y bedair wythnos hon, gyda'r heriau dal yn cael eu rhannu ar Dojo a Hwb er mwyn dysgu adref.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ymbellhau cymdeithasol o ddwy fetr a bydd systemau iechyd a diogelwch cynhwysfawr mewn lle i ddiogelu pawb.

Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar yr hyn y gallwn ei ddarparu, yn cynnwys faint yn union o blant fydd yn dychwelyd i'r ysgol. Atodaf holiadur yn gofyn os ydych yn bwriadu anfon eich plentyn i'r ysgol cyn yr haf er mwyn i ni wybod faint yn union o blant i'w disgwyl. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud trefniadau addas ar sail y niferoedd cywir. Rwy'n sylweddoli bod anghenion a sefyllfa pawb yn wahanol a bod y newyddion yn dal i fod yn newydd i bawb, felly roeddwn am roi cyfle i chi drafod fel teulu cyn dod i benderfyniad.

Yn y cyfamser, diolch yn fawr i chi am eich cydweithrediad a chadwch yn ddiogel.  
Cofion gorau,

Mr C Humphreys

Pennaeth

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys

YGG Tyle'r Ynn

Llansawel Crescent, Llansawel, Castell  
Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan

Ffôn/Phone: 01639 812229

e-bost/e-mail: [yggtylerynn@npt.school](mailto:yggtylerynn@npt.school)

Gwefan/Website: <http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/>